

Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDC)

Diweddariad ar y Rhaglen – Ionawr 2023

Rhennir Diweddariadau Rhaglen Diwygio'r GDC yn chwarterol, i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y rhaglen a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael a chyfathrebu ac ymgysylltiad parhaus.

Dylech sicrhau bod y diweddariad hwn yn cael ei rannu gyda'ch tîm deintyddol, oherwydd mae'r wybodaeth yn berthnasol ar draws yr holl rolau a chyfrifoldebau.

Ionawr 2023 Digwyddiadau Ymgysylltu Rhithiol

Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu diweddaraf yn rhithiol ar 24 a 25 Ionawr 2023, lle y rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr rannu syniadau arloesol ar gyfer Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cymru. Mae adroddiad y digwyddiad ar gael ar Gofal Sylfaenol Un a hefyd y recordiadau o'r cyflwyniadau a fersiynau PDF o'r sleidiau.

Mae rhestr o Gwestiynau Cyffredin yn cael ei llunio yn awr mewn ymateb i rai o'r cwestiynau/ymholiadau a gododd yn ystod y digwyddiadau. Byd dy rhain yn cael eu cylchredeg cyn hir.

Fel arfer rydym yn rhannu'r digwyddiadau ymgysylltu hyn drwy maxcourse, diolch i'n cysylltiadau yn AaGIC. Os nad ydych wedi cofrestru, cymerwch gip yma: www.maxcourse.co.uk/walesdent

Mae ymgysylltiad ar gyfer 2023/24 yn cael ei gynllunio a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu cyn gynted â phosibl.

Bwrdd Rhaglen Diwygio'r GDC – Grŵp Trosolwg Strategol Deintyddol

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Trosolwg Strategol ar 06 Rhagfyr 2022. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Data ar berfformiad 2022/2023.
- Diweddariad ar gyfarfod cyntaf WS4: Ymgysylltiad Proffesiynol. Mae aelodau'r ffrwd waith hon wedi nodi gwahanol feysydd sydd angen sylw a byddant yn cyfarfod yn fisol o Ionawr i fis Mawrth 2023 i drafod y meysydd hyn. Bydd y ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar ddiwygio'r contract a diwygio'r system.
- Adolygiad o Ddogfen Cychwyn Rhaglen (PID) ar gyfer Rhaglen Diwygio'r GDC. Cytunwyd y byddai Arweinydd Newid Busnes yn cael ei benodi i helpu i ddatblygu gwaith y rhaglen drwy fynychu cyfarfodydd y Grŵp Trosolwg Strategol a darparu cyswllt gyda Phenaethiaid Gofal Sylfaenol.
- Mae'r dadansoddiad data yn parhau gan roi ystyriaeth i'r elfen bwysoli.

Egwyddorion Gofal – Pydredd Dannedd a Chlefyd Periodontal

Roedd yr adborth a roddwyd yn yr holiadur gwerthuso yn gadarnhaol, gyda chefnogaeth gyffredinol dros hyrwyddo diwylliant deintyddol cyffredinol ataliol, sy'n seiliedig ar anghenion. Roedd y rhan fwyaf o'r pwyntiau eraill a godwyd yn gysylltiedig â phwysigrwydd ymgysylltu â chleifion a sut y byddai'r Egwyddorion Gofal yn gweithio ar lefel weithredol mewn contract newydd. Ystyriwyd hefyd bod argaeledd gweithlu i gefnogi dull gweithredu 'cymysgedd sgiliau' yn allweddol.

Yn ogystal â chymell darpariaeth atal ar sail tystiolaeth drwy'r contract deintyddol newydd, bydd angen gwaith diweddarau ac uwchsgilio parhaus yn y timau deintyddol ar ddulliau atal ar sail tystiolaeth, os ydym am wneud cynnydd y tu hwnt i'r model traddodiadol o orddibyniaeth ar gyngor iechyd y geg a chyfarwyddiadau ar frwsio dannedd.

Cysylltiadau cyhoeddus – gan Lywodraeth Cymru

Mae Swyddfa Prif Swyddog Deintyddol Llywodraeth Cymru wedi bod yn parhau i weithio ar gysylltiadau cyhoeddus ac mae'r pecyn cymorth Gofal Sylfaenol ar gyfer yr ymgyrch Helpwch Ni i'ch Helpu Chi ar gael yma. Mae'n cynnwys asedau ar gyfer y sianelau cyfryngau cymdeithasol. Mae dolenni i'r ffeiliau 'Dropbox' wedi'u cynnwys yn y PDF.

Am ragor o wybodaeth a chynghor ar ddefnyddio'r asedau hyn, cysylltwch â hsscomms@gov.wales

Cyflawni

- O dan arweiniad y Prif Swyddog Deintyddol
- Cefnogwyd gan yr ymgyrch '[Helpwch ni i'ch Helpu Chi](#)'

Mae'r manylion a'r dolenni i'r cysylltiadau cyhoeddus cyfredol sydd wedi'u harwain gan Lywodraeth Cymru ar gael ar wefan Gofal Sylfaenol Un [yma](#).

Cynllunio'r Gweithlu Deintyddol

Mae AaGIC yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu er mwyn creu Cymru iachach. Yn unol ag adrannau eraill yn AaGIC, mae'r adran ddeintyddol yn parhau i ddatblygu Cynllun Gweithlu Deintyddol Cymru. Ystyir sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod gennym y gweithlu cywir i gyflawni anghenion cleifion. Bydd AaGIC yn arwain y rhaglen i ddatblygu, cyhoeddi a chynllunio cyflwyniad Cynllun Gweithlu Deintyddol, gan ymgysylltu â'r proffesiwn er mwyn cytuno ar feysydd blaenoriaeth a chyfrannu at y gwaith. Gan fabwysiadu agwedd gydweithredol, mae AaGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar y blaenoriaethau a chanfod datrysiadau ar gyfer gweithlu deintyddol cynaliadwy hirdymor yng Nghymru.

Bydd y Cynllun Gweithlu Deintyddol yn darparu cyd-destun a fframwaith trosfwaol ar gyfer datblygu'r gweithlu hwn ac yn ystyried ffyrdd i hyfforddi a defnyddio'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn y ffyrdd gorau posibl. Mae hyn yn debygol o gynnwys gwaith tîm amlddisgyblaethol, addasu rolau, datblygu rolau newydd a chefnogi a galluogi unigolion i ddatblygu llwybr gyrfa cynaliadwy a gweithio er budd gorau eu trwydded. Bydd camau gweithredu cynnar 2023 yn cynnwys:

- Sefydlu strwythur llywodraethu a Bwrdd y Rhaglen i chwilio am gyfleoedd a phennu amserlen rhaglen waith
- Cynnull grŵp llywio Cynllunio'r Gweithlu ar lefel Cymru gyfan gan nodi partneriaid a rhanddeiliaid allweddol i annog mewnwelediad, ceisio cymorth a chyfranogiad ar gam cynnar
- Nodi Blaenoriaethau ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu – sicrhau eu bod wedi'u halinio â chyfeiriad Polisi Cynllunio'r Gweithlu Llywodraeth Cymru
- Archwilio data mewnol ac allanol cyfredol ar y gweithlu deintyddol

Rhoddir rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan yng Nghynllun Datblygu'r Gweithlu yn y diweddariad nesaf.

Datblygu'r Gweithlu Deintyddol

Mae Nicola O'Kelly, ein Harweinydd Hyfforddi Nyrsys Deintyddol newydd, yn ei swydd yn awr ac mae'r gwaith o ddatblygu rhaglen Bwrdd Arholi Cenedlaethol Nyrsys Deintyddol (NEBDN) AaGIC yn parhau. Mae'r broses o recriwtio, dethol a gwneud cais ar gyfer nyrsys deintyddol dan hyfforddiant ar agor yn awr. Os ydych yn ystyried cyflogi nyrs deintyddol dan hyfforddiant yn 2023, cysylltwch â Bethan Withey – swyddog cymorth hyfforddiant nyrsys deintyddol (Bethan.withey2@wales.nhs.uk).

Mae gennym Addysgwr Deintyddol newydd ar gyfer Datblygu'r Gweithlu a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu a chyflawni mentrau ac adnoddau addysgol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol. Bydd ein Haddysgwr Deintyddol newydd yn ceisio sefydlu ac adeiladu ar rwydweithiau effeithiol yng Nghymru, er mwyn casglu gwybodaeth am anghenion datblygu'r proffesiwn. Cysylltwch â Kathryn.marshall4@wales.nhs.uk os hoffech drafod a chysylltu ar hyn.

Cydnabod manteision gwaith amlbroffesiwn; mae'r adrannau deintyddol a fferylliaeth wedi cynnal dau ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar-lein yn y misoedd diwethaf. Mae egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y person cywir yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir. Gan adeiladu ar gyfleoedd datblygiad amlbroffesiwn, bydd yr adran ddeintyddol yn ymuno â'r Uned Cymorth Ail-ddilysu Meddygon Teulu yn AaGIC i gynnal digwyddiad ar y cyd ac archwilio sut y gall meddygon teulu ac ymarferwyr deintyddol cyffredinol gydweithio i wella gofal pobl â diabetes ac ystyried pa wybodaeth y dylid ei rhannu rhwng meddygon teulu, ymarferwyr deintyddol cyffredinol a'u cleifion er mwyn gwella taith y claf. Edrychwch ar [Adran Deintyddiaeth Ôl-raddedig, AaGIC Rhestr cyrsiau \(maxcourse.co.uk\)](#) i weld yr holl gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus sydd gennym. Os ydych wedi nodi angen dysgu ac yn chwilio am hyfforddiant neu addysg i helpu gyda hyn, yna cofiwch gysylltu â ni.

Diweddariad Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

Mae'r gwaith canlynol yn mynd rhagddo a bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu maes o law:

Gwallau hawlio: Byddwn yn parhau i fonitro a lleihau'r nifer o wallau hawlio, gan gefnogi practisau ac ymgysylltu â chyflenwyr Rheoli Practisau Deintyddol (DPMS) a chithau i wella ansawdd data. Rydym wedi dechrau ymgysylltu ar sail un i un uniongyrchol gyda Meddalwedd Rheoli Practisau Deintyddol (DPMS) i gael dealltwriaeth well o'r materion y gall practisau eu hwynebu, gyda'r bwriad o gydweithio i fynd i'r afael â'r rhain.

Holiaduron cleifion: Fe wnaethom asesu'r holiaduron cleifion a ddychwelwyd dros gyfnod yr Ŵyl, lle mae cyfraddau ymateb wedi gostwng yn sylweddol yn flaenorol. Mae'n ymddangos bod y defnydd o holiaduron nad ydynt ar bapur wedi lliniaru hyn. Mae'r gyfradd ddychwelyd ar gyfer mis Rhagfyr ychydig yn uwch na'r cyfartaledd misol, sy'n golygu bod ymatebion yn fwy cadarn ac maent yn cwmparu triniaeth ar hyd y flwyddyn. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn ddiweddarach yn 2023.

Diweddariadau eDEN.

Bydd Dental Insight yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i ddarparu data drwy eDen i gefnogi newidiadau arfaethedig i fetrigau cleifion a chanllawiau diwedd y flwyddyn.

Fel arfer, os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Dental Insight yn dentalinsight@nhsbsa.nhs.uk

Gofal Sylfaenol Un

Mae tudalennau deintyddol Gofal Sylfaenol Un wedi'u hail-gynllunio er mwyn galluogi mynediad mwy cyfleus at wybodaeth.

Mae'r tudalennau gwe ar gyfer Rhaglen Diwygio'r GDC yn cynnwys:

- Pwy sy'n cymryd rhan (y cyfranogwyr)
- Strwythur a Threfniadau Llywodraethu'r Rhaglen
- Atal a Gofal o Safon
- Data a Thechnoleg Gwybodaeth
- Y Gweithlu
- Diwygio'r Contract
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Digwyddiadau'r Rhaglen
- Arloesedd, Arfer Da a Rhannu Syniadau
- Adnoddau ar gyfer Practisau
- Bwletinau, Cylchlythyrau ac Adroddiadau
- Cysylltu â Ni

Mae tudalennau Rhaglen Diwygio'r GDS ar Gofal Sylfaenol Un ar gael [yma](#). Rhowch wybod i ni os hoffech weld unrhyw beth arall yma!

Cymryd rhan

Rydym yn croesawu adborth a chwestiynau gan **bob aelod** o'r tîm deintyddol. Efallai nad oes gennym bob un o'r atebion ar hyn o bryd, ond rydym yn casglu'r cwestiynau ac yn eu defnyddio i hysbysu ein rhaglen a'n dulliau cyfathrebu (e.e. dogfennau Cwestiynau Cyffredin a digwyddiadau ymgysylltu). Felly cofiwch barhau i holi cwestiynau a rhoi eich adborth i ni drwy dentalpublichealth@wales.nhs.uk

Ac yn olaf...

Rydym wedi gofyn eich barn yn ddiweddar ar ba wybodaeth yr hoffech ei derbyn drwy e-bost (mae'r ddolen [yma](#) os gwnaethoch ei methu). Rydym yn awyddus i wybod mwy yn awr am y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu ac ymgysylltu a fyddai'n gweithio orau i chi. Cliciwch [yma](#) i gael mynediad at y ddolen.

Cynhyrchir yr adroddiad nesaf ym mis Ebrill 2023